Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau Anabledd Dysgu

## Beth fydden ni'n hoffi ei wneud rhwng 2022 a 2026



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026'.**

**Mai 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:


**E-bost:** Andrew.stevenson@gov.wales

**Ffôn**: 0300 025 5936


Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Beth sydd yn y ddogfen yma ..... 4**

**Cyffredinol ..... 8**

**COVID a llesiant ..... 12**

**Iechyd a gofal cymdeithasol ..... 14**

**Byw'n annibynnol ac eiriolaeth ..... 23**

**Addysg a phobl ifanc ..... 24**


**Cyflogaeth a sgiliau ..... 24**

**Tai ..... 25**

**Trafnidiaeth ..... 26**

**Geiriau anodd ..... 27**

# Beth sydd yn y ddogfen yma




Cynllun gweithredu ydy hwn. Mae’n egluro beth ddylai **polisi** anabledd dysgu fod dros y 4 blynedd nesaf.




**Polisi** ydy rhestr o beth sydd angen ei wneud a sut y dylai gael ei wneud.



Mae’n dweud:


- beth ydy’r meysydd mwyaf pwysig i **bolisïau** anabledd dysgu ganolbwyntio arnyn nhw
- beth rydyn ni eisiau i **bolisïau** anabledd dysgu eu gwneud
- a beth mae angen inni ei wneud i gyflawni ein nodau



Fe fyddwn ni yn edrych yn aml ar y cynllun gweithredu. Ac fe fydd yn cael ei ddiweddaru fel mae angen.



Fe ddylai'r cynllun wybod beth sydd yn digwydd ym myd pobl gydag anabledd dysgu ar y pryd.




Wrth ysgrifennu'r cynllun yma fe wnaethon ni feddwl am sut y gallai coronafeirws effeithio ar beth rydyn ni'n gallu ei wneud.

Rydyn ni'n meddwl ei bod yn bosibl gwneud y camau gweithredu yn y cynllun yma erbyn 2026.





Fe fydd **LDMAG** yn edrych i weld os ydyn ni yn cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun yma. Ac fe fydd yna adolygiad mawr o'r cynllun yma yn **2024**.



**LDMAG** ydy **Grŵp Cynghori'r Gweinidogion ar Anabledd Dysgu**. Mae'n grŵp o arbenigwry sydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am faterion anabledd dysgu. Mae pobl gydag anabledd dysgu yn y grŵp yma.

Rydyn ni eisiau i bolisi anabledd dysgu ganolbwyntio ar **9 maes** yn 2022 i 2026:




- Materion cyffredinol mae angen i lawer o adrannau'r Llywodraeth gymryd rhan ynddyn nhw

- Dod dros COVID




- Iechyd

- Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol




- Byw'n annibynnol ac eiriolaeth

- Addysg a gwasanaethau plant a phobl ifanc



- Swyddi a sgiliau


- Tai

- Trafnidiaeth



Fe fyddwn ni'n siarad rhagor am y meysydd yma a beth rydyn ni eisiau ei wneud yng ngweddill y ddogfen.

# Cyffredinol




Fe fyddwn ni yn anfon y cynllun yma allan. Ac yn ysgrifennu cynllun cyflawni i fynd gydag ef erbyn gwanwyn 2022. Fe fydd y cynllun cyflawni yn dweud beth sydd angen inni ei wneud a sut y byddwn ni yn ei wneud.




Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y cynllun gweithredu a'r cynllun cyflawni yn ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y **Grŵp Cynghori'r Gweinidogion ar Anabledd Dysgu (LDMAG):**



- yn cynnwys pobl
- yn hawdd i bobl gymryd rhan ynddo
- ac yn ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu.



Fe fyddwn ni yn gweithio yn galedi wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth ydy LDMAG a bod ganddo lais cryf




Rydyn ni eisiau i **bolisi** anabledd dysgu weithio i bobl gydag anabledd dysgu o gymunedau Du, Asiaidd  a lleiafrif ethnig.



A’u gofalwyr a’u teuluoedd.



Fe fyddwn ni yn edrych ar wneud **Arsyllfa Anabledd Dysgu i Gymru**.




Mae **Arsyllfa Anabledd Dysgu i Gymru** yn meddwl edrych ar wybodaeth am bobl gydag anabledd dysgu i helpu i wella pethau. Er enghraifft, gwybodaeth am iechyd.



Fe fyddwn ni yn edrych ar faint fydd e'n gostio. A beth fydd y manteision.



Rydyn ni eisiau gwella cymorth drwy ddefnyddio **Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol** a **gofal sydd yn ystyriol o drawma**.



Mae **Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol** a **gofal sydd yn ystyriol o drawma** yn ffyrdd o gefnogi pobl gydag anabledd dysgu a phroblemau ymddygiad .




Rydyn ni eisiau i'r **Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol** gael ei ddefnyddio mewn bywyd go iawn. Fe ddylai:



- Cael ei ddilyn a'i ddeall gan bobl broffesiynol



- Cael ei gynnwys mewn hyfforddiant ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gofal plant.



Rydyn ni eisiau i **bolisïau** a gwasanaethau gael eu datblygu **gyda** phobl gyag anabledd dysgu. Mae eu meddyliau a'u barn yn bwysig ac fe ddylid meddwl amdanyn nhw bob amser wrth wneud penderfyniadau.

# COVID a llesiant



Rydyn ni eisiau gwella **llesiant** pobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru.

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.




Rydyn ni eisiau i **LDMAG** ein helpu ni i edrych ar **presgripsiynu cymdeithasol**.

**Presgripsiynu cymdeithasol** ydy pan mae meddygon a staff eraill yn cyfeirio pobl i wasanaethau yn y gymuned i helpu i wella eu **llesiant**. Er enghraifft, mynd i'r gampfa neu ymuno gyda dosbarth.




Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol gynnig gweithgareddau i bobl ifanc gydag anabledd dygsu i helpu i wella eu **llesiant**.




Mae angen inni wneud yn siŵr bod y cynlluniau i'n helpu ni i ddod dros COVID yn cynnwys anghenion pobl gydag anabledd dysgu.




Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i feddwl am yr effaith mae COVID wedi ei gael ar bobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

# Iechyd a gofal cymdeithasol



Mae angen inni ddilyn beth sydd wedi cael ei awgrymu yn yr adolygiad o’n **gwasanaethau arbenigol i oedolion**. Gwasanaethau ydy’r rhain sydd yn cael eu darparu gan fyrddau iechyd lle mae pobl yn aml yn byw mewn ysbytai pan nad ydyn nhw yn gallu byw yn  eu cartrefi.




Enw’r adolygiad oedd **‘Gwella Gofal – Gwella Bywydau’.**




Fe fyddwn ni yn creu grŵp gyda phobl ar draws Cymru i weld bod hyn yn digwydd.

Fe fydd y gwaith yma yn helpu:



- cefnogi pobl cyn i bethau fynd yn rhy anodd




- gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael cefnogaeth dda mor agos at eu cartref â phosibl




- cefnogi pobl i fynd yn ôl gartref mor gynnar â phosibl



Gwneud yn siŵr pan mae rhywun gydag anabledd dysgu yn marw, bod y farwolaeth yn cael ei hadolygu.



Mae gwasanaeth newydd ar gyfer hyn o'r enw **Adolygiad Marwolaethau a Gwasanaeth Archwilydd Meddygol (MES**).



Mae hyn yn digwydd er mwyn gweld os fyddai rhywbeth wedi gallu cael ei wneud yn wahanol i ddarparu gwell gofal a chymorth. Rhaid rhannu unrhyw wersi sydd yn cael eu dysgu er mwyn inni allu gwella gwasanaethau.



Dechrau cyflwyno **Modiwl Lefel Sylfaenol Paul Ridd o'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu** i staff gofal iechyd.




Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd yn ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu yn well.



Gwneud yn siŵr bod cynlluniau iechyd a diogelwch ar gael i bobl gydag anabledd dysgu yn y gwasanaethau iechyd.



Cael rhagor o bobl gydag anabledd dysgu i fynd am eu gwiriadau iechyd yn rheolaidd.




Gwneud yn siŵr bod gan bawb Gynllun Gweithredu Iechyd sydd yn ateb eu anghenion yn llawn.



Fe ddylai'r rhain wella iechyd pobl a lleihau'r nifer o farwolaethau a fyddai wedi gallu cael eu hosgoi.

Datblygu a defnyddio'r **Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd**. Offeryn ydy hwn i gofnodi salwch a helpu staff iechyd i gael gwell canlyniadau i bobl.



Fe fyddwn ni yn gwneud prosiectau gwelliant i wneud gwasanaethau iechyd yn fwy cyfartal i bawb.



Fe fyddwn ni yn ysgrifennu **polisïau** a chanllawiau i helpu i ddelio gyda phroblemau rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw. A gwella sut mae gwasanaethau iechyd yn delio gydag anghenion pobl gydag anabledd dysgu, yn cynnwys gwella pethau fel :

- amodau **diagnosio**



**Diagnosio** ydy pan mae meddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol yn edrych ar eich iechyd ac ymddygiad ac yn dweud os oes gennych chi gyflwr arbennig neu beidio. Efallai bydd angen rhai profion hefyd.



- Trin **rhwymedd** – pan dydych chi ddim yn gallu gwneud pŵ neu pan mae'n anodd gwneud pŵ



- Cynnig **brechlynnau** i bobl gydag anabledd dysgu i ddechrau, cyn grwpiau eraill.

> **Brechlyn** ydy meddyginiaeth sydd yn helpu i'ch stopio chi rhag mynd yn sâl o afiechydon



- Ei gwneud yn fwy hawdd i bobl gydag anabledd dysgu i gymryd rhan mewn **sgrinio**.

> Mae **sgrinio** yn meddwl edrych i weld os oes gan bobl rhyw fathau o ganser a phroblemau iechyd eraill. Pan mae canser a phroblemau iechyd yn cael eu darganfod yn gynnar maen nhw yn fwy hawdd i'w trin.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y gwaith rydyn ni yn ei wneud ar leihau unigrwydd yn cysylltu'n dda gyda'n **polisïau** anabledd dysgu



Rydyn ni eisiau darganfod beth sydd yn gwneud i bobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd a gofalwyr fynd yn unig ac wedi eu torri i ffwrdd oddi wrth eu cymunedau.



A gweithio gyda phartneriaid i weithio hyn allan.



Fe fyddwn ni yn helpu gwasanaethau dydd a **seibiant** ac **egwyl byr** i redeg yn ôl yn llawn ar ôl COVID.

**Seibiant** ydy cael toriad o wneud rhywbeth sydd yn gallu bod yn anodd neu yn flinedig. Mae egwyl byr yn debyg i seibiant a gall fod yn wyliau.



Fe fyddwn ni yn rhannu ffyrdd newydd o weithio ar draws awdurdodau lleol.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod rhagor o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl. A hefyd edrych ar sut i wneud yn siŵr eu bod nhw yn cael egwyl.





Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod anghenion gofalwyr yn cael eu hateb.




Rydyn ni  eisiau gwella sut mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio.



Rydyn ni eisiau rhoi rhagor o gefnogaeth i rieni gydag anabledd dysgu.




Fe fyddwn ni yn adolygu **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014**. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y ddeddf yma yn helpu pobl i gael y gwasanaethau a'r help maen nhw eu hangen.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda **LDMAG** a phobl eraill ar hyn i wneud yn siŵr ein bod yn clywed lleisiau pobl gydag anabledd dysgu.



Fe fyddwn ni yn gweithio ar gael gweithlu gofal cymdeithasol da, cryf. Mae angen eu hyfforddi yn dda ac mae anggen iddyn nhw gael eu cefnogi yn y gwaith.

# Byw'n annibynnol ac eiriolaeth



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl lais, gwneud eu dewisiadau eu hunain a chael rheolaeth dros eu bywydau.



Mae angen inni ddarganfod sut rydyn ni'n gallu darparu gwasanaethau eiriolaeth a hunaneiriolaeth sydd yn ateb anghenion yr holl bobl gydag anabledd dysgu.



Rydyn ni  eisiau defnyddio technoleg i helpu pobl gael llais a chael yr wybodaeth maen nhw ei angen.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael y cyngor a'r canllaw maen nhw eu hangen i gael perthnasoedd iach

# Addysg a phobl ifanc



Rydyn ni  eisiau gwella'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc gydag anabledd dysgu. Fe fyddwn ni yn adolygu'r gwasanaethau yma.



Fe fyddwn ni'n edrych i weld pa fylchau mewn cefnogaeth sydd yna er mwyn inni allu gwneud newidiadau.A rhannu arfer da

# Cyflogaeth a sgiliau



Fe fyddwn ni'n gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl gael hyfforddiant a swyddi gyda chyflog.



Fe fyddwn ni'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl gydag anabledd dysgu i gael **prentisiaethau** – dyma pryd rydych chi'n cael eich talu tra'n dysgu sgiliau swydd.

# Tai

Mae angen i **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** wneud yn siŵr:



- Eu bod nhw yn cael gwybod beth mae pobl gydag anabledd dysgu yn ei feddwl cyn gwneud penderfyniadau



- A bod pobl gydag anabledd dysgu yn cymryd rhan yn llawn yn eu gwaith.



**Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** ydy cynghorau, gwasanaethau iechyd a chyrff eraill sydd yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn dda.



Mae angen i bobl hefyd gymryd rhan yn llawn mewn cael dweud beth maen nhw'n feddwl am sut mae arian yn cael ei wario.




Mae angen i bobl gael rhagor o ddewis a rheolaeth dros lle maen nhw'n byw a gyda phwy.

# Trafnidiaeth



Mae angen i bobl gydag anabledd dysgu gael gwell mynediad i drafnidiaeth cyhoeddus.




Er enghraifft, mae angen i amserlenni bysiau fod ar gael mewn ffordd hawdd ei ddeall.



Rhaid inni wneud yn siŵr ein bod ni yn gweithio gyda grwpiau ac yn clywed lleisiau a barn pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau yma.



Fe ddylai'r cynlluniau yma helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio mwy ar wasanaethau cymunedol.

# Geiriau anodd

### Arsyllfa Anabledd Dysgu i Gymru

Mae Arsyllfa Anabledd Dysgu i Gymru yn meddwl  edrych ar wybodaeth am bobl gydag anabledd dysgu i helpu i wella pethau. Er enghraifft, gwybodaeth am iechyd.

### Brechlyn

Meddyginiaeth ydy brechlyn sydd yn helpu eich stopio chi rhag mynd yn sâl o afiechydon.

### Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Cynghorau, gwasanaethau iechyd a chyrff eraill yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn dda.

### Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a gofal sydd yn ystyriol o drawma

Ffyrdd ydy'r rhain o gefnogi pobl gydag anabledd dysgu a phroblemau ymddygiad.

### Diagnosio

Diagnosio ydy pan mae meddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol yn edrych ar eich iechyd ac ymddygiad ac yn dweud os oes gennych chi gyflwr arbennig neu beidio. Mae hyn yn gallu meddwl cael rhai profion hefyd.

### Llesiant
Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

### Polisi
Polisi ydy rhestr o beth sydd angen ei wneud a sut y dylid ei wneud.

### Presgripsiynu cymdeithasol
Presgripsiynu cymdeithasol ydy pan mae meddygon a staff eraill yn cyfeirio pobl i wasanaethau yn y gymuned i helpu i wella eu llesiant. Er enghraifft, mynd i'r gampfa neu ymuno gyda dosbarth.

### Seibiant
Seibiant ydy cael toriad o wneud rhywbeth sydd yn gallu bod yn anodd neu yn flinedig. Mae egwyl byr yn rhywbeth fel seibiant ac mae'n gallu bod yn wyliau.

### Sgrinio
Mae sgrinio yn meddwl edrych i weld os oes gan bobl rhyw fathau o ganser a phroblemnau iechyd eraill. Pan mae canser a phroblemau iechyd yn cael eu darganfod yn gynnar maen nhw yn fwy hawdd i'w trin.